



This leaflet offers guidance for the recruitment of participants to research projects.

There is growing evidence to suggest that minority populations are under represented in health research. This influences not only the scientific rigour of research findings but also the capacity to generalise from these findings, raising questions about the equity of any healthcare provision based on the conclusions of the research.

Language barriers inhibit access to healthcare for minority language speakers and contribute to their exclusion from research studies. Minority language speakers are often excluded from research studies because of:

- a lack of language awareness among researchers
- a lack of bilingual staff
- financial and time constraints associated with translation
- an inability to support a range of minority languages.

This leaflet is based on *Language Awareness in Health and Social Care Research Governance, LLAIS Briefing Paper 2* (2007). The full version of this briefing paper can be obtained at www.llais.org

References

- Association of Welsh Translators and Interpreters: www.welshtranslators.org.uk
- Involving People: www.involvingpeople.org.uk
- Levkoff S, Levy B & Weitzmann P (2000) The Matching Model of Recruitment. *Journal of Mental Health and Aging* 6, 29-38
- Lolfa Directory of Organisations in Wales: www.ylolf.com/cyfeiriadur.php?lang=eng
- National Assembly for Wales (2003) *National Statistics*. National Assembly for Wales, Cardiff.
- Roberts G, Irvine F, Jones P, Spencer L, Baker C & Williams C (2006) Language awareness in bilingual healthcare setting: a national survey. *International Journal of Nursing Studies* 44, 1177-1186.
- Welsh Language Board: www.byig-wlb.org.uk/english/using/pages/howdoicommissiontranslation.aspx

Am fwy o fanylion am LLAIS cysylltwch â

Fiona Irvine
Athro Ymchwil Nyrsio
Uned Nyrsio ac Ymarfer Cychwynnol
Prifysgol John Moores Lerpwl
f.irvine@lpmu.ac.uk
© 01512 312121

Gwerfyl Roberts
Darlithydd
Canolfan Ymchwil Gysylltiedig ag Iechyd
Prifysgol Bangor
gwerfyl.w.roberts@bangor.ac.uk
© 01248 383165

www.LLAIS.org

LLAIS: Caiff y *Gwasanaeth Cefnogi Isadeiledd Ymwybyddiaeth o Iaith* ei ariannu gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru.

© LLAIS 2008. Mae *LLAIS* yn awdurdodi mudiadau gofal iechyd i wneud copïau o'r deunydd hwn i bwrpasau addysgu a phwrpasau sydd heb fod yn fasnachol.

For further details about LLAIS contact


Fiona Irvine
Professor of Nursing Research
Nursing & Primary Practice Unit
Liverpool John Moores University
f.irvine@lpmu.ac.uk
© 01512 312121

Gwerfyl Roberts
Lecturer
Centre for Health-Related Research
Bangor University
gwerfyl.w.roberts@bangor.ac.uk
© 01248 383165

www.LLAIS.org

LLAIS: Language Awareness Infrastructure Support Service is funded by the Wales Office of Research and Development for Health and Social Care (WORD), Welsh Assembly Government.

© LLAIS 2008. *LLAIS* authorises healthcare organisations to reproduce this material for educational and non-commercial use.



Cymraeg Clir



CRC CYMRU
cydweithrediad ymchwil clinigol cymru
clinical research collaboration cymru



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

MAGMA

Mae'r daflen hon yn un o gyfres sydd wedi'i seilio ar
BAPUR BRIFFIO 2 LLAIS

Ymwybyddiaeth o Iaith wrth Lywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol

3 RECRIWTIO POBL I GYMRYD RHAN

Yn yr un gyfres hefyd

- 1 Cefndir
- 2 Cynllunio
- 4 Casglu Data
- 5 Dadansoddi Data
- 6 Ysgrifennu Adroddiadau a Lledaenu Gwybodaeth

This leaflet is one of a series based on
LLAIS BRIEFING PAPER 2

Language Awareness in Health and Social Care Research Governance

3 RECRUITMENT OF PARTICIPANTS

The series also includes

- 1 Background
- 2 Planning
- 4 Data Collection
- 5 Data Analysis
- 6 Report and Dissemination



Mae'r daflen hon yn cynnig canllawiau ynglŷn â recriwtio pobl i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil.

Tyfu y mae'r dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw lleiafrifoedd yn cael eu cynnwys digon mewn ymchwil ym maes iechyd. Mae hyn yn tansellio nid yn unig y sail wyddonol i ddarganfyddiadau'r ymchwil, ond hefyd y posibilrwydd o gyffredinolir darganfyddiadau hyn. Mae hyn yn codi cwestiynau ynglŷn â thegwch unrhyw ddarpariaeth gofal iechyd sydd wedi'i seilio ar gasgliadau'r ymchwil.


Oherwydd rhwystrau iaith, mae siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn ei chael hi'n anoddach mynd at ofal iechyd ac mae hynny'n cyfrannu at y broses o'u heithrio o astudiaethau ymchwil. Mae siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn aml yn cael eu heithrio o astudiaethau ymchwil oherwydd:

- diffyg ymwybyddiaeth iaith ymhlith ymchwilwyr
- diffyg staff dwyieithog
- prinder amser ac arian i gyfieithu
- diffyg gallu i gynnal nifer o wahanol ieithoedd lleiafrifol.

Mae'r daflen hon wedi'i seilio ar *Bapur Briffio 2 LLAIS, Ymwybyddiaeth o Iaith mewn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol* (2007). Mae modd gweld y fersiwn lawn o'r papur briffio ar www.llais.org

Cyfeiriadau

- Bwrdd yr Iaith Gymraeg: www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/defnyddio/Pages/Sutmaecomisiynucyfieithydd.aspx
- Cyfeiriadur y Lolfa o Fudiadau a Chwmnïau yng Nghymru: www.ylolf.com/cyfeiriadur.php
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru: www.cyfieithwycymru.org.uk
- Cynnwys Pobl: www.involvingpeople.org.uk/?diablo.lang=cym
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2003) *Ystadegau Cenedlaethol*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
- Levkoff S, Levy B a Weitzmann P (2000) The Matching Model of Recruitment. *Journal of Mental Health and Aging* 6, 29-38
- Roberts G, Irvine F, Jones P, Spencer L, Baker C a Williams C (2006) Language awareness in bilingual healthcare setting: a national survey. *International Journal of Nursing Studies* 44, 1177-1186.



I annog siaradwyr ieithoedd lleiafrifol i gymryd rhan mewn ymchwil, mae'n bosib:

- dysgu mwy am natur y boblogaeth darged trwy weithio gyda chymunedau o leiafrifoedd wrth gynllunio'r ymchwil
- bod yn arloesol wrth ddatblygu strategaethau samplu
- gwella ymwybyddiaeth yr ymchwilwyr o iaith
- cyflogi eiriolwyr iechyd dwyieithog sy'n siarad yr un iaith â'r rhai sy'n cymryd rhan ac sy'n gallu ennyn eu hyder
- gwella'r broses o gyfieithu a mabwysiadu cyfieithu peirianyddol
- paratoi gwybodaeth ar gyfer y grwpiau targed yn eu dewis iaith

Mae Bocs 1 yn disgrifio model ar gyfer recriwtio siaradwyr ieithoedd lleiafrifol i gymryd rhan. Mae'n cynnig canllawiau gwerthfawr i rywun sy'n mynd ati i recriwtio Cymry Cymraeg ar gyfer astudiaethau ymchwil.

Mae Bocs 2 yn rhestru meini prawf a chymorth ar gyfer pwysu a mesur sut mae cyflwyno ymwybyddiaeth iaith wrth recriwtio pobl i gymryd rhan mewn astudiaethau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

BOCS 1 Golwg Cyffredinol ar y Model Paru o Recriwtio (wedi'i addasu o Levkoff et al 2000)

	LEFELAU	RHWYSTRAU	YSGOGYDDION
MACRO	Asiantaethau Cymunedol	e.e. pwysau gwaith yn llethol	e.e. ymrwymiad i gydymffurfio â Chynlluniau Iaith asiantaethau
	Sefydliadau Academaidd	e.e. diffyg ymwneud ag asiantaethau cymunedol	e.e. ymrwymiad i ymwybyddiaeth iaith mewn ymchwil yn unol â Fframwaith Llywodraethu Ymchwil ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llywodraeth y Cynulliad 2001)
CYFRYNGWR	Porthgeidwaid / Darparwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol	e.e. rhy barod i amddiffyn rhai a allai gymryd rhan	e.e. yn amlwg o fewn cymuned Gymraeg ei hiaith
	Y Tîm Ymchwilio	e.e. dewis dulliau anaddas o ymchwilio	e.e. recriwtio a defnyddio staff ymchwilio sy'n Gymry Cymraeg
UNIGOLYN	Unigolion / Gofalwyr sy'n cymryd rhan	e.e. hunan-barch Cymry Cymraeg yn isel	e.e. rhesymau anhunanol dros gymryd rhan
	Cyfwelwyr	e.e. diffyg sensitifrwydd wrth drin Cymry Cymraeg	e.e. ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

BOCS 2 Meini Prawf ar gyfer Pwysu a Mesur Ymwybyddiaeth Iaith wrth Recriwtio Pobl i Gymryd Rhan

A yw'r strategaeth recriwtio'n rhoi sylw i ddemograffeg Cymry Cymraeg?

- cyfeiriwch at Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2003)
- cyfeiriwch at Roberts et al (2006)

A yw rhwydweithiau Cymraeg yn cael eu targedu'n briodol?

- cyfeiriwch at Gyfeiriadur y Lolfa o Fudiadau a Chwmnïau yng Nghymru

A oes cyswllt uniongyrchol gan y tîm cynllunio â broceriaid cymunedol?

- cyfeiriwch at Gynnwys Pobl

A yw'r deunyddiau recriwtio'n ddwyieithog?

- cyfeiriwch at Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru

A yw'r deunyddiau recriwtio'n rhoi digon o sylw i fater cyfieithu ac arddull yr iaith?

- cyfeiriwch at Fwrdd yr Iaith Gymraeg

BOX 1 Overview of the Matching Model of Recruitment (adapted from Levkoff et al 2000)

	LEVELS	BARRIERS	ENABLERS
MACRO	Community Agencies	e.g. workload demands overwhelming	e.g. commitment to reflect agencies' Welsh Language Schemes
	Academic Institutions	e.g. poor history of academic affiliations with community agencies	e.g. commitment towards language awareness in research, as outlined in the National Research Governance Framework for Health and Social Care (WAG 2001)
MEDIATOR	Gatekeepers / Health and Social Care Providers	e.g. over-protection of potential participants	e.g. immersed in Welsh speaking community
	Research Team	e.g. inappropriate choice of research methods	e.g. appropriate recruitment and deployment of Welsh speaking research staff
INDIVIDUAL	Individual Participants / Caregivers	e.g. low self-esteem as Welsh speakers	e.g. altruistic motives for participation
	Interviewers	e.g. Insensitivity towards Welsh speakers	e.g. Welsh language awareness

BOX 2 Evaluation Criteria for Language Awareness in the Recruitment of Participants

Does the recruitment strategy take account of the demography of Welsh speakers?

- see National Assembly for Wales (2003)
- see Roberts et al (2006)

Are Welsh language networks appropriately targeted?

- see the Lolfa Directory of Organisations in Wales

Does the planning team have direct contact with community brokers?

- see Involving People

Are the recruitment materials available in bilingual format?

- see Association of Welsh Translators and Interpreters

Do the recruitment materials give due consideration to issues of translation and language style?

- see Welsh Language Board

The following measures can be adopted in order to encourage minority language speakers to take part in research:

- getting to know the make up of the target population by working with minority communities in planning the research
- being innovative when developing sampling strategies
- enhancing language awareness amongst researchers
- employing bilingual health advocates who share the same language as the participants and can establish trust with them
- refining translation processes and adopting machine technology
- tailoring information for target groups in their preferred language

Box 1 outlines a model for the successful recruitment of minority language participants. This serves as a valuable guide for the recruitment of Welsh speakers to research studies.

Box 2 lists evaluation criteria and resource support for introducing language awareness in the recruitment of participants to health and social care studies in Wales.